Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Paratoi ar gyfer 20 milltir yr awr



Mae'r daflen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Paratoi ar gyfer 20mya**'.

**Awst 2023**

# Paratoi ar gyfer 20 milltir yr awr



O 17 Medi 2023 fe fydd rhaid i gerbydau fel ceir, bysiau a loriau fynd yn fwy araf ar rai ffyrdd.




Lle mae'r terfyn cyflymder yn 30 milltir yr awr, fe fydd hyn yn newid i 20 milltir yr awr ar y rhan fwyaf o ffyrdd. Fe fydd hyn yn ei gwneud yn fwy diogel i bawb sydd yn byw, gweithio a chwarae yno.



## Mae ceir mwy araf yn fwy diogel


Mae car sydd yn mynd ar 20 milltir yr awr yn gallu stopio yn fwy cyflym na char sydd yn mynd 30 milltir yr awr.



Os ydy car yn eich taro chi ar 30 milltir yr awr, rydych chi 5 gwaith mwy tebygol o farw na pan mae car yn eich taro chi ar 20 milltir yr awr.



Fe fydd ceir sydd yn mynd ar 20 milltir yr awr yn meddwl y bydd yna lai o ddamweiniau ceir, llai o bobl yn marw a llai o bobl yn cael eu hanafu bob blwyddyn.



## Mae ceir sydd ym mynd yn araf yn well

Efallai y bydd yn cymryd mwy o amser i gyrraedd lleoedd mewn car os ydyn nhw yn mynd yn fwy araf. Ond fe fydd hyn yn gwneud pethau yn well i ni ac i'n cymunedau. Oherwydd:



- Fe fydd yn fwy diogel i bawb.Fe fydd yna lai o ddamweiniau car, ac fe fydd llai o bobl yn cael eu hanafu neu yn cael eu lladd. Fe fydd hyn hefyd yn helpu'r bobl sydd yn gweithio mewn ysbytai a'r gwasanaethau brys.



- Rydyn ni'n meddwl y bydd mwy o bobl yn cerdded, seiclo a defnyddio olwynion. Fe fydd pobl yn teimlo'n fwy diogel o wneud y pethau yma yn eu cymunedau.



- Fe fydd hyn yn gwella ein iechyd a'n llesiant.



## Mae goleuadau stryd yn meddwl 20 milltir yr awr

Pan rydych chi'n gweld goleuadau stryd, y terfyn cyflymder ydy 20 milltir yr awr, os nad oes yna arwyddion yn dweud cyflymder gwahanol.



Mae llawer o'r strydoedd sydd âr terfyn cyflymder yma mewn pentrefi, trefi neu ddinasoedd neu lle mae yna lawer o dai.

Fe fydd GanBwyll, yr Heddlu ac eraill yn ein helpu ni i ddysgu am, a dilyn y terfyn cyflymder 20 milltir yr awr.



Mae’r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru eisiau i geir fynd yn fwy araf yn lle maen nhw yn byw.




Rydych chi’n gallu helpu i wneud strydoedd yn fwy diogel a chymunedau yn fwy iach drwy yrru ar 20 milltir yr awr.

## Dysgu rhagor

I weld beth ydy’r cyflymder ar y strydoedd sydd yn agos atoch chi ewch i mapdata.llyw.cymru. Teipiwch ‘20mya’ yn y blwch a chliciwch ‘Chwilio’.

Neu rydych chi’n gallu edrych ar wefan eich cyngor lleol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rydych chi’n gallu dysgu mwy am y rheolau newydd yn llyw.cymru/BarodAm20

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi’n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

**Rhif Trwydded Photosymbols 403527247**.


© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48236